

Dyma realiti rhyfel.

Ni'n bomio. Nhw'n dioddef.

Erthygl gan Robert Fisk yn yr Independent on Sunday ar ddydd Sul cyntaf y rhyfel yn erbyn pobl gyffredin Iraq - Mawrth 23 2003.



Dywed Donald Rumsfeld mai ymosodiad America ar Iraq “yw'r ymgyrch awyr sydd wedi'i thargedu orau erioed”, ond mae'n well iddo beidio ceisio dweud hynny wrth Doha Suheil sydd yn bump oed. Edrychodd arnaf bore ddoe, gyda phiben y drip yn sownd i'w thrwyn, yn crychu ei thalcen wrth iddi geisio'n ofer i symud ochr chwith ei chorff. Roedd ei choesau wedi cael eu rhwygo gan shrapnel o daflegryn cruise ffrwydrodd yn agos i'w chartref ym maestref Radwaniyeh, ac yn fwy difrifol, roedd darnau yn asgwrn ei chefn. Nawr mae'n methu symud ei choes chwith o gwbl.

Mae ei mam yn plygu drosti i sythu ei choes dde sy'n cicio'n ffymig y tu allan i'r flanced. Am ryw reswm cred mam Doha y bydd cadw dwy goes ei merch yn syth yn cael gwared o'r parlys. Hi oedd y cyntaf o 101 o gleifion gludwyd i Ysbyty Coleg Al-Mustansaniya yn dilyn pledu'r ddinas o'r awyr gan yr Americanwyr nos Wener. Cafodd nifer o aelodau eraill ei theulu eu hanafu yn yr un ymosodiad; roedd yr ieuengaf, babi blwydd oed yn cael ei fwydo ar fron ei fam ar y pryd.



Mae rhywbeth yn gyfogyd, yn anwedus am yr ymweliadau hyn i'r ysbyty. Ni'n bomio. Nhw'n dioddef. Wedyn rydyn ni'n ymddangos i dynnu lluniau o'u plant wedi'u clwyfo. Mae gweinidog iechyd Iraq yn penderfynu cynnal cynhadledd annioddefol i'r wasg i bwysleisio natur anifeilaidd yr ymosodiad Americanaidd. Dywed yr Americanwyr nad ydyn nhw'n bwriadu niweidio plant. Ac mae Doha Suheil yn edrych arnaf fi a'r doctoriaid am sicrwydd, fel petai modd iddi ddeffro o'r hunllef, symud ei choes chwith a pheidio teimlo rhagor o boen.

Felly beth am i ni anghofio am foment propaganda rhad gweinyddiaeth Iraq, a moesoli rhatach Messrs Rumsfeld a Bush, a mynd ar daith hyd Ysbyty Coleg Al-Mustansaniya. Oherwydd yn y pen-draw nid buddugoliaeth filwrol yw realiti rhyfel, neu gelwyddau am luoedd cynghreiriol sy'n cael eu pedlera gan newyddiadurwyr sydd wedi cael eu gosod gyda'r milwyr. Prif ganlyniad rhyfel, hyd yn oed os oes

ganddo gyfreithlondeb rhyngwladol – rhywbeth sydd ddim gan y rhyfel hwn yn sicr – yw dioddefaint.

Edrychwch ar enghraifft Amel Hassan, gwerinwraig gyda tattoos ar ei breichiau sy'n gorwedd yn awr yn yr ysbyty gyda chleisiau piws enfawr ar ei hysgwyddau. Roedd ar ei ffordd i weld ei merch pan darodd y taflegryn Americanaidd cyntaf Baghdad. "Ro'n i'n dod mas o'r tacsï pan gafwyd ffrwydriad mawr, disgynnais i'r llawr ac roedd fy ngwaed i ym mhob man," dywedodd wrthyf. "Roedd ar fy mrest, fy nghoesau a mreichiau". Mae gan Amel Hassan anafiadau shrapnel difrifol o hyd i'w brest.

Mae ei merch bum mlwydd oed Wahed yn gorwedd yn y gwely nesaf ati yn nadu oherwydd ei phoen. Roedd wedi dringo o'r tacsï cyn ei mam a bron â chyrraedd drws ty ei modryb pan drawyd hi gan y ffrwydriad. Mae ei thraed yn dal i waedu er bod y gwaed wedi ceulo o gwmpas y bysedd ac yn cael ei arafu gan y rhwymau ar ei phigymau. Mae dau fachgen bach yn yr ystafell nesaf. Mae Sade Selim yn 11, a'i frawd Omar yn 14. Mae gan y ddau shrapnel yn eu brest a'u coesau.



Mae Isra Riad mewn ystafell arall gydag anafiadau tebyg gafodd wrth redeg i'r ardd o'i thy pan ddechreuodd y pledu. Mae Imam Ali yn 23 ac mae ganddi anafiadau shrapnel difrifol yn yr abdomen a'r perfedd. Mae Najla Hussein Abbas yn dal i geisio cuddio ei phen â sgarff ddu ond all hi ddim cuddio'r anafiadau piws ar ei choesau. Wedi peth amser mae'r geiriau "anafiadau shrapnel difrifol" yn swnio fel rhyw glefyd naturiol – ac efallai mai fel hynny mae pobl sydd wedi dioddef am ugain mlynedd yn eu gweld.

Pam ddigwyddodd hyn, gofynnais fy hun ddoe? Oedd hyn i gyd oherwydd Medi 11? Gwnaed hyn i daro nôl yn erbyn yr ymosodwyr, er nad oedd gan Doha Suheil, Wahed Hassan ac Imam Ali, fwy na'r Saddam Hussein ofnadwy, ddim oll i wneud â'r troseddau ofnadwy hynny yn erbyn dynoliaeth. Pwy benderfynodd ysgwn i y dylai'r plant hyn, y menywod hyn ddioddef oherwydd Medi 11?

Mae pethau'n cael eu hail adrodd mewn rhyfeloedd. Wastad pan fyddwn "ni" yn dod i ymweld â'r rhai wnaethon ni eu bomio gofynnwn yr un cwestiwn. Yn Libya yn 1986 rwy'n cofio sut roedd newyddiadurwyr America dro ar ôl tro yn croesholi'r rhai oedd wedi'u clwyfo: oedden nhw wedi cael eu taro gan shrapnel o'u drylliau eu hunain efallai? Eto yn 1991 fe ofynnwn ni yr un cwestiwn i'r clwyfedig yn Iraq. A ddoe

clywais newyddiadurwr radio o Brydain yn holi yr un cwestiwn: “Ydych chi’n credu, doctor, y gallai rhai o’r bobl hyn fod wedi cael eu taro gan ddrylliau Iraq?”

Ddylfen ni grio neu chwerthin am hyn? Ddylfen ni wastad feio “nhw” am eu clwyfau? Fe ddylfen ni holi’n bendant pam waneth y taflegrau cruise yna ffrwydro ble wnaethon nhw, o leiaf 320 yn Baghdad ei hun mewn un noson diolch i’r USS Kitty Hawk....

Ac at beth mae hyn i gyd yn arwain? Yn oriau mân bore ddoe edrychais dros ddyfroedd y Tigris ar y Palas Gweriniaethol yn llosgi’n wenfflam....

Trawodd Xenophon i’r De o fan hyn, Alecsander i’r Gogledd. Anrheithiodd y Mongoliaid Baghdad. Daeth y Califfiaid. Wedyn yr Osmaniaid, ac yna Prydain. Gadawodd pob un. Nawr mae’r Americanwyr yn dod. Dyw hwn ddim byd i wneud â chyfreithlondeb. Mae’n ymwneud â rhywbeth llawer mwy dinistriol, rhyw bwer o fath arbennig, yr un pwer mae pob gorchfygwr wedi ceisio’i ddangos wrth chwalu ei ffordd drwy diroedd y gwareiddiad hynafol hwn.

Brynhawn ddoe fy gynheuyd tanau olew enfawr gan yr Iraciaid o gwmpas y ddinas yn y gobaith y bydden nhw’n camarwain system reoli y taflegrau cruise. Mwg yn erbyn cyfrifiaduron. Dechreuodd y seirenau rhybudd-yмосodiad-o’r-awyr udo tua 3.20pm amser Llundain, ac fe’u dilynwyd gan swm byddarol, disgwylidig ac anorfod y ffrwydriadau.